

COFNODION O GYFARFOD CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWDYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF, Ffordd RHIW, BAE COLWYN, NOS LUN, 23^{AIN} GORFFENNAF 2018 AM 6.30 P.M.

YN BRESENNOL: Maer y Dref, Y Cynghorydd S Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Mrs G Baker; B. Barton, N. Bastow, D. Bradley, C. Brockley, Mrs G. Campbell, Mrs H. Fleet; D. Howcroft, C. Hughes, M.A. Jones, Mrs M Jones; C. Matthews, Mrs H. Meredith, A Pearson, P Richards, Mrs K. Swindon, M. Worth.

SWYDDOG: Mrs C. J. Earley, Clerc y Dref

110/18 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gan y Maer a chyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr A. Kealey, A Khan, A Mason, J Pearson, M. Pickard ag M. Tasker.

111/18 Cyhoeddiadau gan y Maer:

Rhoddodd y Maer cyhoeddiad byr ar lafar i ddweud wrth y Cyngor ei fod wedi gweld, ar y cyfryngau cymdeithasol, bod dau gyflwynydd o raglen radio brecwast Heart FM am ymweld â chanol dref Bae Colwyn, dydd Gwener yr wythnos hon. Byddant yn sgwrsio gyda busnesau / siopwyr ac yn cynnal cystadleuaeth. Bydd llwyfan wedi cael ei osod ar waelod Ffordd yr Orsaf gyda cherddorion ifanc yn perfformio.

112/18 Datgan Cysylltiadau:

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiad personol a / neu gysylltiad sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau.

Datganodd y Cynghorydd K. Swindon ei chysylltiad personol (heb fod yn un all ragfarnu) yn eitem 4(b) ar yr agenda, gan mai Steve Swindon (TAPE) yw ei gŵr.

113/18 Ymwelwyr a'r Cyngor:

- a) Fe nodwyd bydd yr Arolygydd Dosbarth newydd, Heddlu Gogledd Cymru, Julie Sheard, yn bresennol yng nghyfarfod y Cyngor ar 22^{ain} Hydref.
- b) Cyflwynodd y Clerc cais i'w ystyried gan Steve Swindon, Cerddoriaeth a Ffilm Gymunedol TAPE, iddo fynychu cyfarfod yn y dyfodol.

Penderfynwyd estyn gwahoddiad iddo ac anfon ato, manylion am y cyfarfodydd sydd ar ddod.

c) Ymgysylltiad gyda'r Cyngor Sir:

Yn absenoldeb unrhyw Gynghorwyr Sirol eraill, cafwyd adroddiad byr ar lafar gan y Cynghorydd C. Hughes am rai o bethau diweddar y teimlai a fyddai o ddiddordeb.

- i. Nid oedd cwmni Kingdom wedi derbyn cynnig Cyngor Bwrdeistref

Sirol Conwy i ymestyn eu cytundeb am chwe mis hyd at fis Mawrth 2019. Felly, bydd y cytundeb presennol ar orfodaeth ar draws y Sir yn dod i ben ym mis Medi.

- ii. O ganlyniad i ddeiseb a symbylwyd gan y Cynghorydd Mike Priestley, cafwyd cadarnhad yn ddiweddar bod TAN 1 wedi cael ei ddileu yn ddi-oed gan Lywodraeth Cymru.

Diolchwyd i'r Cynghorydd Hughes am ei adroddiad

114/18 Cofnodion:

- a. *Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cywirdeb cofnodion:*
 - (i) *Cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar 11^{eg} Mehefin 2018.*
- b. *Penderfynwyd derbyn copi o gofnodion y cyfarfodydd canlynol:*
 - i. *Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio ar 19^{eg} Mehefin 2018.*
 - ii. *Pwyllgor Polisi a Chyllid a gynhaliwyd ar 4^{dd} Gorffennaf 2018 (drafft)*
 - iii *Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 10^{fed} Gorffennaf 2018 (drafft.)*

115/18 Materion yn Codi o'r Cofnodion Hynny :

a) Cofnod 47/18(b) – Y Cynllun Corfforaethol 2018-2022:

- i. Cyflwynodd y Clerc adroddiad i'w ystyried, am y gwaith oedd yn mynd ymlaen gyda'r Cynllun Corfforaethol,. Fe nodwyd bydd hwn yn cynnwys, fel Atodiad, cynllun gwaith ar gyfer 2018/19 a fydd yn dangos sut fydd y Cyngor yn gweithio tuag at amcanion y Cynllun Corfforaethol yn seiliedig ar y gweithgareddau a phenawdau cyllid presennol a gytunwyd. Fe obeithir bydd hwn yn barod i gael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Cyngor i'w ystyried a'i gymeradwyo.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc ystyried cyfeirio'n benodol at y noson tân gwyllt blynyddol, am fod hwn yn ddigwyddiad pwysig lleol sy'n cael ei gynnal gan y Cyngor Tref.

- ii Dogfen Cychwyn y Prosiect: Cyflwynodd y Clerc ffurflen i'w ddefnyddio gan yr Aelodau ar gyfer cynigion am unrhyw weithgareddau / gwasanaethau newydd.

Fe nodwyd bod dau gynnig ysgrifenedig am brosiect / polisi wedi cael eu cyflwyno'n ddiweddar gan y Cynghorydd Hughes. Caiff ei gynnwys ar yr agenda nesaf fydd ar gael.

Penderfynwyd cymeradwyo'r defnydd o'r ffurflen i gyflwyno syniadau am unrhyw brosiectau neu weithgareddau newydd yn y dyfodol (copi i'w ddanfôn trwy e-bost).

- b Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried a chadarnhau argymhellion y Pwyllgorau fel y maent yn ymddangos yn y Cofnodion canlynol:
 - i **Cofnod 57/18(b) - Ymrwymo gydag Ieuencid:** Gweithio gyda Gwasanaeth Ieuencid Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) i

archwilio'r potensial o gael prosiect i ymrwymo ieuenctid yn ehangach gydag addysg i bobl ifanc lleol am ddemocratiaeth leol.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc trafod hyn gyda Phennaeth Gwasanaeth Ieuenctid Conwy i baratoi prosiect mwy manwl.

- ii **Cofnod 72/18 – Offer Chwarae:** Cytuno i gynyddu cyllideb offer chwarae o £17,500 i £30,000 yn 2018/19 (y cynnydd i ddod allan o'r arian wrth gefn cyffredinol) ac i gytuno y gellir defnyddio hwn i gynnal a chadw'r offer presennol. Hefyd, i ofyn i GBSC parhau i chwilio am adnoddau ychwanegol o fudiadau eraill, megis cymdeithasau tai, mudiadau sy'n cynnig grantiau neu noddwyr.

Cyflwynodd y Clerc diweddariad cryno am yr arian wrth gefn, er gwybodaeth, oedd yn dangos gweddill o £23,000 mwy na'r arian wrth gefn cyffredinol a ragwelwyd pan gafodd cyllideb 2018/19 ei pharatoi.

Mynegwyd pryder at benderfyniad Cabinet CBSC i dorri ar gyllideb cynnal a chadw offer chwarae heb iddynt ddynodi unrhyw ffynonellau eraill i godi arian. Cafwyd trafodaeth gyffredinol am lefelau'r toriadau yng nghyllidebau Awdurdodau Lleol gan y Senedd a Llywodraeth Cymru a'r effaith oedd hyn am gael ar yr holl wasanaethau nad oeddynt yn statudol.

Penderfynwyd cefnogi'r cynnydd yn y cyfraniad i GBSC tuag at offer chwarae o £17,500 i £30,000 yn 2018/19 a gofyn i'r Cyngor Sir parhau i ganolbwyntio ei ymdrechion ar ddynodi mudiadau eraill sydd yn cynnig arian cyfatebol, fel yr awgrymwyd.

- iii **Cofnod 74/18(a) - Pwyllgor Codi Arian tuag at yr Eisteddfod Genedlaethol:** Addo talu'r arian o £7,000 i'r pwyllgor codi arian lleol, gyda £3,500 i'w dalu yn y flwyddyn ariannol bresennol a'r flwyddyn ariannol nesaf.

Penderfynwyd cymeradwyo'r taliad o £3,500 yn 2018/19 a £3,500 yn 2019/20 tuag bat apêl y pwyllgor codi arian lleol tuag at Eisteddfod Genedlaethol 2019

- iv **Cofnod 79/18 - Diweddarau'r Rheolau Sefydlog Model:** Dywedodd y Clerc ei bod am adolygu'r Rheolau Sefydlog model newydd a ddiweddarwyd a chyflwyno adroddiad i gyfarfod yn y dyfodol.
- v **Cofnod 84/18 - Grantiau Bach:** Cymeradwyo'r grantiau bach fel y maent yn ymddangos yn Atodiad B i'r cofnodion hynny ac ystyried y wybodaeth bellach a dderbyniwyd i gefnogi cais gan SPYCE.

Penderfynwyd cymeradwyo taliadau'r grantiau bach fel y maent yn ymddangos yn Atodlen 'A' y Cofnodion hynny.

Fe benderfynwyd ymhellach i gymeradwyo cynnig ar y cyd gan y Cyngorwyr P. Richards, C. Hughes a C. Matthews am Lwfans Ward Aelodau Lleol i roi £500 i weithdy cerddoriaeth yr haf i SPYCE

- vi **Cofnod 84/18(b) - Cais Hwyr am Grant Digwyddiad (Le Sport Junior Squash):** Gyda gofid, gwrthod y cais hwyr am grant digwyddiad am fod cyllideb 2018/19 wedi'i wario'n llwyr a chafodd yr arian wrth gefn ychwanegol ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau eraill.

vii *Penderfynwyd nodi holl benderfyniadau'r Pwyllgorau fel y maent yn ymddangos yn y Cofnodion.*

116/18 Cod Ymddygiad - Hyfforddiant:

- a. Cyflwynodd y Clerc copi o'r sleidiau cyflwyno a'r canllawiau a dderbyniwyd gan yr Ombwdsman i aelodau o awdurdodau. Fe nodwyd bod y Maer a'r Dirprwy Faer wedi cael hyfforddiant yn ddiweddar. Rhoddodd y Maer adroddiad byr ar lafar, gan atgoffa'r aelodau bod y Cod Ymddygiad yn berthnasol hefyd i achosion eraill heblaw cyfarfodydd y Cyngor, pan fo aelodau yn gweithredu, neu yn honni eu bod yn gweithredu'n swyddogol fel cynghorwyr, neu ar ran y Cyngor. Cynigiodd y Clerc i roi'r cyflwyniad i'r Cyngor Tref, gan ddefnyddio nodiadau'r hwylusydd os oes raid.
- b. Cyflwynodd y Clerc ymateb i'r cais i Swyddog Monitro (CBSC) ddod i gyfarfod y Cyngor Tref i roi hyfforddiant ac / neu ateb unrhyw gwestiynau gan yr Aelodau. Fe nodwyd nad oedd hyn yn bosibl oherwydd y costau (amser y swyddog) o roi cyflwyniad ar wahân i bob un o'r 33 cyngor tref a chymuned yn Sir Conwy. Fodd bynnag, gellir cadw lle i aelodau eraill mewn sesiynau hyfforddi yn y Sir yn y dyfodol pan fydd y Swyddog Monitro yn barod i ateb unrhyw gwestiynau penodol gan yr Aelodau. Dywedodd un neu ddau o'r Aelodau byddai'n dda iddynt gael rhannu'r astudiaethau achos, er mwyn cael mwy o wybodaeth fanwl ar sut i weithredu'r Cod. Dywedodd y Clerc bod John Roberts, cyn Clerc y Cyngor, wedi galw ac wedi cynnig dod i gyfarfod ac / neu ateb unrhyw gwestiynau gan yr Aelodau, am ei fod ar hyn o bryd yn Gadeirydd Annibynnol Bwrdd Safonau Conwy.

Penderfynwyd nodi'r ymateb.

117/18 Byw yn y Bae:

- a. **Cynllun Buddsoddi Canol y Dref:** Cyflwynodd y Clerc copi o'r sleidiau cyflwyno o'r cyfarfod anffurfiol a gynhaliwyd ar 2^{il} Gorffennaf.
- b. Cyflwynodd y Clerc adroddiad terfynol Rhaglen Adfywio Mannau Bywiog a Dichonadwy 2014-2017 er gwybodaeth.
- c. **Adnewyddu Yswiriant y Cyngor Tref:**

Cyflwynodd y Clerc amcan bris a dderbyniwyd i adnewyddu yswiriant y Cyngor Tref o fis Awst 2018. Fe nodwyd bod trydydd brocer wedi gwrthod rhoi amcan bris, am ei fod o'r farn na fyddai'n gystadleuol..

Penderfynwyd derbyn amcan bris Zurich, cwmni yswiriant presennol y Cyngor, am gytundeb tair blynedd am gost adnewyddu o £4,280.64 y flwyddyn.

118/18 NWAMI:

Cyflwynodd y Clerc wahoddiad i'r Cyngor Tref penodi cynrychiolydd i fod ar Bwyllgor Cynghori Gogledd Cymru. Fe nodwyd bod rhai o'r aelodau wedi

derbyn nifer o wahoddiadau i ymuno o amryw o ffynonellau. Mynegwyd pryder gan rai o'r Aelodau nad oedd efallai angen penodol i gynghorau tref a chymuned i fod yn aelodau o'r Pwyllgor Cynghori ac nad oedd digon o wybodaeth ar gael am beth oedd y swydd yn ei olygu.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc ceisio mwy o wybodaeth oddi wrth Dr Marian Gwyn am beth fyddai bod yn aelod o'r Pwyllgor yn ei olygu.

119/18 Ffilm am Fywyd y Parchedig William Hughes:

- a. Fe nodwyd bod y Cynghorydd B. Barton wedi cylchlythyru neges e-bost byr yn union ar ôl i'r ffilm newydd gael ei sgrinio yn ddiweddar yn Station Hotel. Ariannwyd y ffilm gyda grant gan y Cyngor Tref. Roedd yr Aelodau a fu'n bresennol wedi cael y ffilm i fod yn tra diddorol ac yn addysgiadol.
- b. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried cynnig i ddangos y ffilm yng nghyfarfod y Cyngor ar 22^{ain} Hydref fel rhan o fis Hanes Pobl Dduon Cymru. Fe nodwyd bod y ffilm yn cymryd oddeutu 20 munud, a'n bod eisoes wedi cael siaradwr gwadd (Arolygydd yr Heddlu) i ddod i'r cyfarfod hwnnw, fel bydd yr amser yn fyr.

Penderfynwyd argymhell bod y Cynghorwyr Tref i weld y ffilm yn eu hamser eu hunain (mae'r ffilm ar gael ar-lein) a bod y Clerc i:
i Anfon y linc i'r safle(oedd) perthnasol
ii Cysylltu â Dr Marian Gwyn i ofyn a ellir trefnu dangosiad cyhoeddus o'r ffilm yn Neuadd y Dref yn ystod mis Hanes Pobl Dduon Cymru.

- c. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried awgrym bod y Cyngor yn archebu ail gopi o'r dyfyniad (sydd ar gael yn ddigidol) a'i fframio a'i arddangos yn Neuadd y Dref. Fe nodwyd y cafwyd cytundeb yn y cyfarfod bod y copi a dalwyd amdano gyda grant, i gael ei arddangos yn y llyfrgell leol, oherwydd bod mwy o bobl yn ymweld â'r fan honno.

Penderfynwyd ychwanegu darn am y Parchedig William Hughes ar wefan y Cyngor Tref a chynnwys copi digidol o'r dyfyniad ar y dudalen honno.

120/18 Digwyddiadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):

- a. Cyflwynwyd adroddiad byr ar lafar gan yr Aelodau a fu yng nghyngerdd diweddar Paloma Faith, gan gadarnhau bod y trefniadau ar gyfer y cyngerdd yn arbennig o dda a bu nifer fawr yn bresennol. Fe nodwyd bod un aelod wedi cael problem gyda mynediad oherwydd diffyg trosglwyddo neges, ond derbyniwyd ymddiheuriad ar y diwrnod ac fe wnaed yn iawn am yr esgeulustod.

Atgoffwyd yr Aelodau a fu'n bresennol yn y ddau ddigwyddiad yn ystod yr haf, gan y Clerc, bod yn ofynnol iddynt gwblhau a llofnodi cofnod o dderbyn rhodd / lletygarwch.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc ysgrifennu at Rachael Gill a'i thîm i'w llongyfarch ar lwyddiant y digwyddiadau ardderchog a gynhaliwyd ar draws y Sir yn ystod y misoedd diwethaf.

- b Proms yn y Parc y BBC:** Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried sut y dylid dosbarthu'r deg tocyn a gynigiwyd i'r Cyngor Tref gan GBSC ar gyfer Proms yn y Parc (8^{fed} Medi).

Penderfynwyd bod y Clerc i anfon manylion am y gwahoddiad at bob aelod, gyda'r flaenoriaeth yn mynd i'r rhai na fynychodd y ddau ddigwyddiad arall a gynhaliwyd yn yr haf. Os yn angenrheidiol, bydd y Maer a'r Clerc yn tynnu tocyn ym mis Awst.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.55 p.m.

.....Cadeirydd